



Llanpumsaint dan drwch o eira a haen o nydden (Dave Robinson)

Llais y Llan Chwefror 2021

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf Ionawr 26 2021

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Lais y Llan



Tirlithriad i gau'r hewl ger Felinfach (Margaret Burgess)




Arwydd o obaith dros Lanpumsaint (Ray Davies)



Arwydd o obaith dros Lanpumsaint (Ray Davies)



Eira dros dir y Rhandir (Rosie Frewin)



Aros am y ras hwyaid Angela and Phil

Ydych chi'n oedran 10-17??

wel dewch i.....

SESIVN FLASU!

GRŴP IEUENCTID

DOTS

Dydd Iau!

4YDD O FAWRTH

6-7 y.h

2021

Cysylltwch â Gaynor am y linc!

j_gaynor@hotmail.com

Emma



Cynheuaf sbwriel Edward a Sylvia

Ogofdy rhith Sion Corn



Cromfach ffwng prydfferth Carolyn Smethurst



A rhagor o eira Carolyn Smethurst

Cyflenwyr lleol sy'n barod i ddsbarthu neu archebu a chasglu

Gwelir tipyn o wybodaeth am siopau a chyflenwyr ar safle Facebook – Llanpumsaint ar cylch. Os nad ydych yn defnyddio Facebook dyma rai manylion am siopau a chyflenwyr sy'n barod i helpi'n lleol, drwy dderbyn archebion dros y ffon, dosbarthu neu archebu a chasglu.

Tafarn y Railwe Diodydd y tu allan yn unig - 01267 253643 a Facebook

Becky Llysiau a ffrwythau - yn y pentre' bob dydd Iau - 2 o'r gloch ymlaen.

Adrian Thomas - Bara, danteithion a chacennau. Archebwch Ddydd Llun i dderbyn Dydd Mercher – 07971 740505.

Cig Porfa Perffaith - **Nicky Esgair** 01267 253463

Bacwn a Selsig - **Treftadaeth Myrddin** 07468 453770

Siop Gwalia - Ffonio a chasglu 01267 253249

Chris Thomas Abergwili - Ffonio a chasglu – 01267 238363

Castell Howell – Archebu a chasglu ar y We o Cross Hands 01269 846080

Castell Howell - Talu a chasglu o Gaerfyrddin – gwelwch ein gwefan

Farmyard Nurseries – Yn dosbarthu archebion 01559 363389

Pobydd Hafod Archebwch Ddydd Mawrth i dderbyn Dydd Iau 01267 211419

Fan Swyddfa Bost - Dydd Mawrth 1.30pm to 3.00pm, Dydd Gwener 1.00pm to 3.00pm.

Ac wrth gwrs os gewch chi slot mae Morrisons, Asda a Tesco yn dosbarthu – pob lwc!

Neges oddi wrth Gyngor Sir Gar

Mae busnesau yn Sir Gar gyda sefydliadau a grwpiau cymorth cymunedol COVID 19 yn mynd yr ail filltir i gynnig cymorth yr adeg yma. Er mwyn gweld beth sy'n digwydd yn eich ardal ac y ganfod pa gymorth sydd ar gael ewch i wefan y Cyngor Sir.

Gallwch ychwanegu eich busnes i'r rhestr ar covid19community@ Carmarthenshire.gov.uk

[<mailto:covid19community@ Carmarthenshire.gov.uk>](mailto:covid19community@ Carmarthenshire.gov.uk) gan ychwanegu enw'r sefydliad, grŵp neu fusnes, disgrifiad byr ac egluro sut i gysylltu e.e. facebook - y We - E-bost - rhif ffôn. Nodwch hefyd pa ardal rydych yn gweithio ynddi. Gallwn ychwanegu gwasanaethau gwahanol neu rai newydd er mwyn cydweithio i gefnogi ein cymunedau.

Curad Calon Llanpumsaint

Dymar criw bach fu'n gyfrifol am sefydlu 4 Adfy wiwr mwn gwahanol safleoedd yn yr ardal –

Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ

Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU

Ar wal Fferm yr Henfryn tua Ffynnonhenri SA33 6LD

Tu fas Ffestri Capel Nebo. SA33 6HN

Gosodwyd blwch newydd i'r Adfywiwr ger y Neuadd a diolch i Galon Cymru amdano am ddim.

Diolch hefyd i Wil am ei osod lan a'i gysylltu â chyflenwad trydan y Neuadd.

Os pery rhywun drawiad ar y galon gore gyd pwy gyntaf iddo gael triniaeth yr Adfywiwr er mwyn goroesi. Bydd pob munud yn dyngedfennol ac mi fydd y Gwasanaeth Ambiwlans yn barod i'ch cyfarwyddo dros y ffon nes bod cymorth ychwanegol yn cyrraedd. Gallai hyn ddod o gyfeiriad y Gwasanaeth Tan sydd hefydl/87 wedi eu hyfforddi i ymateb ac aros yno nes i'r Ambiwlans gyrraedd.

Os nad ydych yn siŵr sut i ddefnyddio'r Adfywiwr gallwch fenthyg y pecyn ymarfer oddi wrtho i, a chyfle felly i'w ddangos i aelodau eraill o'ch teulu. Hyd yma ni ddefnyddiwyd un o'r peiriannau yma yn yr ardal, ond pwy a wŷr pan ddaw galw, felly mae ymarfer ymlaen llaw yn fodd i arbed bywyd.

Carolyn Smethurst 01267 253308 info@gwilimill.com

DIOGELU CYMRU – copi cylchlythyr

Mae'r sefyllfa gyda COVID-19 yn newid yn barhaus ac yn parhau i roi staff a gwasanaethau'r GIG o dan bwysau aruthrol.

Nawr yn fwy nag erioed mae angen i bobl feddwl yn ofalus am ble ddylent ofyn am gyngor ac osgoi pwysau ychwanegol ar y GIG y gaeaf hwn.

Fodd bynnag, mae'r GIG yn dal yno i chi os a phan fyddwch ei angen, ond efallai y bydd y ffordd y byddwch yn cael gafael ar wasanaethau'n wahanol.

Rydym yn annog pobl i barhau i fynd i'w hapwyntiadau ysbyty pan ofynnir iddynt neu i adolygu eu triniaeth. Mae ysbytai wedi mabwysiadu amrywiaeth o fesurau priodol i gadw pobl yn ddiogel, yn cynnwys trin pobl gyda'r coronafeirws neu achosion posibl o'r coronafeirws mewn manau ar wahân i'r rhai nad yw'r feirws arnynt er mwyn atal y risg o ledaeniad.

Mae'r GIG yn gweithio'n galed i gadw gwasanaethau ar agor gan geisio eich cadw'n ddiogel yr un pryd. Os ydych yn poeni am symptomau parhaus, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu. Ar ôl cael cynnig apwyntiad meddygol gnewch yn siŵr eich bod yn mynychu ar yr amser a roddwyd i chi. Mae hynny'n ddiogel. Fel arall, efallai y byddwch yn cael cynnig ymgynghoriad fideo; mae hwn yn ymweliad ymgynghori llawn ond mae'n arbed i chi deithio i'ch meddygfa leol.

Yn ogystal â sicrhau eich bod yn cael cymorth pan fo angen, mae ymgyrch Diogelu Cymru'n gofyn i bobl ddefnyddio'r gwiriwr symptomau ar-lein ar wefan GIG 111 Cymru (111.wales.nhs.uk) neu ffonio 111 am gyngor ar ble i fynd i gael y driniaeth briodol.

Drwy ddewis y gwasanaeth priodol i'ch anghenion gallwn sicrhau nad ydym yn rhoi pwysau ychwanegol ar feddygon teulu, Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a'r gwasanaethau ambiwlans brys wrth iddynt barhau i ymateb i'r pandemig.

Oeddech chi'n gwybod bod fferyllfeydd cymunedol yn cyflawni swyddogaeth allweddol yn helpu pobl, gyda mân anhwylderau ac anafiadau, i gael y meddyginiaethau a'r cymorth priodol. Lle bo'n bosibl, gallwch helpu fferyllwyr drwy archebu presgripsiynau rheolaidd saith niwrnod cyn iddynt fod yn ddyledus. Neu, os oes gennych fân anaf, mae clinigau a all eich trin fel nad os angen i chi fynd i'r adran ddamweiniau ac achosion brys. Gallwch ddod o hyd i'ch clinig agosaf ar-lein.

A chofiwch, os oes gennych symptomau COVID, waeth pa mor ysgafn, mae angen i chi hunanynysu ac archebu prawf drwy ffonio 119 neu mae angen ffonio 111 os yw'ch symptomau'n parhau ac os na allwch ymdopi gartref mwyach.

Mae pawb yn wynebu hyn gyda'n gilydd. Helpwch ni i'ch helpu chi.

Neuadd Goffa Llanpumsaint & Ffynnonhenri Memorial Hall

Ar y foment mae'r Neuadd yn parhau ar gau ac yn methu cynnal digwyddiadau oherwydd sefyllfa covid-19. Fe fydd y pwyllgor yn cwrdd yn rhithiol dros yr wythnosau nesaf i drafod ffordd ymlaen wrth ail agor y Neuadd yn y dyfodol. Diolch

Gwasanathau Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel Ffynnonhenri

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Caersalem - Os byddwch chi am ddod i'r cwrdd, ffoniwch 253895 am fwy o fanylion

Gofal Traed Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwyntiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD /CYLCH Y GOEDWIG

Cysylltwch â Verona, Arweinydd ar 07929 431652 neu cylchmeithrinbronwydd@gmail.com

Brics Codi Arian - A hoffech chi brynu bricsen i roi ar y wal tu fewn i'r Neuadd? Rydyn ni nawr yn derbyn archebion. Mae angen pump archeb arnom ni, cyn i ni fedru prynu'r brics. Pris y brics yw £50 yr un. Am fwy o wybodaeth a ffurflen archebu cysylltwch â Catrin Eldred ar 07772235243.

Bydd cymunedau yn Sir Gar a Sir Benfro yn cael cymorth ychwanegol wrth i Gyfrifiad 2021 nesáu

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi penodi Rheolwr Ymgysylltu'r Cyfrifiad i gefnogi trigolion Sir Gar a Sir Benfro a helpu i wneud Cyfrifiad 2021 yn llwyddiant.

Bydd Nia Taylor, Rheolwr Ymgysylltu'r Cyfrifiad yr ardal, yn helpu sefydliadau, elusennau a grwpiau ffydd ac arweinwyr cymunedol yn y ddau Sir i godi ymwybyddiaeth o'r cyfrifiad a pha mor bwysig yw sicrhau bod trigolion yn cymryd rhan.

Arolwg a gaiff ei gynnal unwaith bob degawd yw'r cyfrifiad ac mae'n cynnig ciplun o gartrefi yng Nghymru a Lloegr sy'n helpu i gynllunio ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd gofyn i bawb ledled Cymru a Lloegr gymryd rhan a bydd y wybodaeth y bydd pobl yn ei rhannu yn penderfynu sut y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u hariannu. Yn y pen draw, bydd yn sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau brys, gofal iechyd, lleoedd mewn ysgolion a gwasanaethau hanfodol eraill.

Dymwedodd Pete Benton, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Cyfrifiad: "Mae rheolwyr ymgysylltu'r cyfrifiad a'r cynghorwyr cymunedol rydym wedi'u penodi yn chwarae rôl hollbwysig wrth sicrhau bod pawb yn deall pam mae'r cyfrifiad yn bwysig a gwneud yn siŵr bod pob cartref ledled Cymru a Lloegr yn gwybod pam mae'n bwysig cymryd rhan a sut i gael yr help sydd ei angen arnynt."

Am y tro cyntaf, bydd y cyfrifiad yn cael ei gynnal ar lein yn bennaf, gan ei gwneud hi'n haws i'r rhan fwyaf o bobl lenwi'r holiadur ar unrhyw ddyfais – boed yn gyfrifiadur, yn ffôn symudol neu'n llechen. Bydd canolfannau cymorth lleol y cyfrifiad yn cynnig help, a bydd holiaduron papur ar gael i'r bobl hynny y bydd eu hangen arnynt. Bydd holl staff y cyfrifiad yn gweithredu yn unol â chanllawiau diweddaraf y Llywodraeth ar COVID-19.

Bydd Cyfrifiad 2021 yn cynnwys cwestiwn newydd am gyn-filwyr Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig, ynghyd â chwestiynau gwirfoddol am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd i'r rhai sy'n 16 oed a throsodd.

Caiff y cyfrifiad ei gynnal ar 21 Mawrth 2021. Er y bydd canlyniadau ar gael y flwyddyn ganlynol, bydd yr holl gofnodion personol yn cael eu cadw dan glo am 100 mlynedd er mwyn eu cadw'n ddiogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i cyfrifiad.gov.uk

I gael gafael ar eich rheolwr ymgysylltu'r cyfrifiad/cynghorydd cymunedol lleol, defnyddiwch y manylion cyswllt isod: Nia Taylor - nia.taylor17@field.census.gov.uk

Cylchlythyr Llais y Llan

Mioshe Merry ydw i a fi yw Rheolwr Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa. 'Rwy'n gweithio i Antur Cymru sy'n rheoli'r gronfa. [Www.brechfawest](http://www.brechfawest.com) <[http://www.brechfawest](http://www.brechfawest.com)>communityfund.org.uk Yno gallwch weld rhestr lawn o'r taliadau a ddyfarnwyd hyd yma, astudiaeth o bob achos, gwybodaeth am gyflwyno cais, neu sut y gallwch wneud cais i gynnwys eich hunan fel aelod o'r Panel. Cewch yno hefyd restr o'r cwestiynau amlach sy'n codi.

Dros y ddwy flynedd gynta gwariwyd £1.4 miliwn ar 91 project i'r cymunedau sy'n byw o fewn 6 cilomedr i'r Fferm Wynt. Mae'n deg dweud fod y Gronfa wedi ei ordanysgrifio yn drwm ar hyn o bryd, ond peidiwch adael i hyn eich atal i drafod cais posib gyda mi. Gallwch gysylltu drwy E-bost mmerry@anturcymru.org.uk <<mailto:mmerry@anturcymru.org.uk>> neu ar y ffon 07779 457351. Ni allaf gyflwyno i fudiadau oherwydd bod cymaint ohonynt yn ein dalgylch, ond rwyf yn cynnal cyfarfodydd er mwyn trafod ceisiadau'n fanwl.

Gofynnir yn amyl ar sut i ysgrifennu cais yn drwyadl ond nid dyna mae aelodau'r Panel yn chwilio amdano. Maen nhw am ystyried pa fantais ddaw i'r bobl leol a dylanwad y cynllun. Maent hefyd yn chwilio am werth yr arian a ddosberthir, ac yn awyddus i'r gwaith fydd angen ei wneud cynnig cyfleoedd i fusnesau lleol. Bydd y Panel hefyd yn mesur dylanwad hir dymor y cynllun, oherwydd bydd y Gronfa yma am oes y Fferm Wynt sef pum mlynedd ar hugain. Felly byddant yn pwyso a mesur dylanwad parhaol y cynllun ar y gymdeithas wledig.

Unrhyw un sydd â diddordeb bod yn aelod o'r Panel cysylltwch â mi i gael Ffurflen Gais. Ar hyn o bryd mae gennym le i aelod o ardal Llanpumsaint/Peniel/ Rhydargaeau.

Perchnogion y Fferm Wynt yw RWE Renewables a nhw sy'n ei rhedeg hi, ond y Panel sy'n penderfynu pob cais project. Pwrpas y Gronfa yw gwella a chyfoethogi'r gymuned o fewn 6 cilomedr iddi. Ambell waith cefnogwyd cais y tu allan i hyn ond eithriadau yw'r rhain gyda Chalon Tysul a Chlwb Rygbi Nantgaredig yn enghreifftiau. Arianwyd yn rhannol yn ôl y lles a wnaed i bobl ifanc o'n hardal.

Cefnogwyd Yr Ysgol, Y Rhandiroedd a Merched y Wawr yn Llanpumsaint ynghyd ac astudiaeth o gynllun Siop, newid Adfywiwr, Scanda Vale, cefnogi Llais y Llan am 5 mlynedd a hefyd Cylch Meithrin Bronwydd. Arianwyd cynlluniau mwy o faint wnaeth buddiol i Lanpumsaint fel cyflogi Cyd-gysylltydd Canolfan Teuluol Pencader, gwelliannau yn cynnwys dŵr a thrydan i Neuadd Llanllawddog. Ein cyfraniad mwyaf hyd yn hyn yw £260,000 dros bum mlynedd i alluogi Skanda Vale brynu Skanda Hafan Tŷ Byncer yn Dolgran. Bydd yr elw o'r fenter, agorir unwaith i'r argyfwng presennol fod drosodd, yn gwneud y clafdy'n llai dibynnol ar gyfraniadau gan ryddhau elw cyson i'w galluogi i ehangu eu gwasanaeth rhad i gleifion o 7 diwrnod y mis i 365 dydd y flwyddyn.

Rydym hefyd wedi prynu modur trydan at ddefnydd y cyhoedd gyda safleoedd gwefr. Os am ddefnyddio'r car hwn neu drefnu gyrrwr cysylltwch â Dolen Teifi ar 01559 362403. Gwnaeth cynllun arall ddychwelid cyfleoedd bancio gwledig, pan sefydlodd Save Easy Credit Union safleoedd yn yr ardal. Gellir ei galw ar 01554 770867 am fwy o wybodaeth.

Cefnogwyd Llyfrau Llafar hefyd sydd wedi ychwanegu llyfrau Arwyn Thomas ar Lanpumsaint i'w llyfrgell lafar, gyda'r gwasanaeth yn rhad drwy ffonio 01267 238225. Hefyd os ydych yn awyddus am wybod sut mae cael cymorth i'r rhai sy'n diodde' o Awtistiaeth adeg y Cyfnod Cloi yma; cymorth i'r Gofalwyr dan hyfforddiant TirCoed; neu gefnogi twristiaeth fel rhan o fenter Mynyddoedd y Cambrian yn datblygu safleoedd tywyll i ymwelwyr; yna cysylltwch â mi er mwyn eich cyfeirio at unrhyw un o'r uchod. Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa yn falch o'u cefnogi.

Edrychwn ymlaen at gydweithio er mwyn hwyluso'r cyfleoedd i wella ein cymuned. Moisie Merry 07779 457351 brechfa@anturcymru.org.uk

Ysgol Llanpumsaint

Dymuna'r CRhA ddiolch I pawb am eu cefnogaeth i'r ysgol gyda Pel bonws y loteri, yr ennillwyr lwcus oedd Miriam ac Eliot.

Fe gynhaliwyd Groto Ddigidol eleni a hoffwn ddiolch I Staff yr Ysgol, Santa a Dyfed Telecom am ei rhodd.

Hefyd hoffwn ddiolch I Lisa Jones, Teisen Tlws am gyfrannu elw 8 cacen 'dolig.

Clwb Garddio Bronwydd

Aeth bron flwyddyn heibio ers i ni wrando ar Julian Wormald a gweld ei amrywiaeth hyfryd o lili wen fach. Ar hyn o bryd mae'n lili a'r bylbiau eraill yn diuno i'n hatgoffa fod tymor yr ardd ar ddechrau. Oherwydd i Neuadd Bronwydd fod ar gau ac yn annhebygol o agor am beth amser i ddod, ni allwn gwrdd nes ein bod ni i gyd wedi derbyn brechiad. Bu'r neuadd ar glo am gyfnod hir a bydd angen ei glanhau'n drwyadl cyn croesawu'r cyhoedd 'nol.

Falle wir na welwn ein gilydd am sbel ac mi allai fynd i 2022 hyd yn oed. Gobeithio eich bod i gyd yn cynllunio'ch gerddi er mwyn mwylhau' awyr iach Felly defnyddiwch y Cyfnod Cloi i ddatblygu eich sgiliau i dyfi llysiau a blodau er mwyn eich bwydo yn gorff ac enaid. Yr ardd wnaeth fy nghadw'n gall adeg y gwanwyn diwethaf, a gobeithio 'r tro hwn eto. Annhebygol iawn yw hi y gwelwn ein Sioe Garddio Flynyddol yn Awst eleni, ond mae Cronfa Fferm Wynt Brechfa wedi addo cadw eu rhodd o £500 ymlaen i 2022, felly cawn hwyl bryd hynny, darn o olau dydd ynghanol y tywyllwch. Felly defnyddiwch y Cyfnod Cloi i berffeithio eich sgiliau gyda'r ffrwythau, llysiau a'r blodau, er mwyn cael rhywbeth i edrych ymlaen ato. Os allwch sbario peth o'ch cynnyrch, yn hadau, planhigion bychan neu lysiau, ffrwythau neu flodau, byddai hyn yn nefoedd i eraill gyda gerddi bychan neu ddim o gwbl. Gall caredigrwydd fynd ymhell ac mae gwir angen ar hyn o bryd.

Os ydych ardd yn edrych yn ddeniadol daclus eleni yna tynnwch luniau oherwydd fydd yna ddwy gystadleuaeth arbennig i'r Adran Tynnu Llundun eleni. -- Yr Ardd Flodau Orau yn 2021 - Llundun Gorau o Ardd Lysiau 2021.

Cyfarchion gorau i chi a'ch teuluoedd. Byddwn yn cysylltu eto yn yr haf pan fydd y sefyllfa'n fwy eglur ynghyn a'r Neuadd a'r cyfle i gyfarfod. Os dderbynioch y neges hon drwy E-bost wrth Margaret Nolan ac yn gallu trosglwyddo'r neges i eraill yna rhwch wybod i Margaret, fydd hyn yn gymorth iddi, oherwydd mae lot da'i wneud a byddai'n gwerthfawrogi help llaw. Sue Hart.

Arwyddion o Wanwyn

Wedi ffarfelio a 2020 edrychwn ymlaen at well byd yn 2021. Dyma ni yn cwato gartre wrth aros am ein pigiad gan hiraethu am ein teuluoedd a'n cyfeillion. Bu Ionawr yn oer a gwlyb gydag ychydig eira hefyd ond mae yna ambell arwydd o'r gwanwyn i ddod i godi calonau. Mae'r lili wen fach ar agor y cennin Pedr cynta' gyda'u blodau heulog yn ymddangos, a chyfoeth o friallu'n egino ac yn barod i agor pan ddaw gwres.

A'r adar daw llu **** i fwydo ar y peli bloneg. Arwydd pendant arall o'r gwanwyn yn cyrraedd yw ymddangosiad y gwyddau o Ganada, galw mewn am un noson ar ei ffordd i rywle. Mae'r gwahaddod wrthi dros y lle - ddim yn siŵr a yw hynny'n codi calon!

Erbyn daw'r Llais i'ch drws bydd yna lawer mwy o arwyddion calonogol gyda'r dydd yn mystin hefyd.

Carolyn Smethurst

Cyfarchwch bobl ddiarth

Adeg y Cyfnod Cloi gobeithio i ni gyd gadw at y rheolau. Bu Vi a minnau'n hunan ynysi ers mis Mawrth, yn mentro allan ddim ond pan fod rhaid ac yn gwisgo gorchudd bryd hynny. Buom i'r dre ambell waith am siopa angenrheidiol neu bethau meddygol. Daeth bwyd i'r drws yn wythnosol wedi ei archebu fis ymlaen llaw. Felly rydym yn ddiogel ac iach ond yn ofalus oherwydd ein hoed. Felly pan ddaw rhywun lan yr hewl af allan am glonc fach gan gadw pellter Beth amser 'nol cefais sgwrs fach a dau newydd symud i Nantyrnys rhyw dri mis 'nol. Credaf mai eu henwau yw Emma a Ben (gobeithio i mi gofio'n gywir) .Felly croeso iddynt i ardal hyfryd. Cyn yr argyfwng hwn gwelwyd llawer o weithgareddau fel Clwb Swper, Cyri a Chwis, Gorymdaith Siôn Corn Dydd Hwyl a llawer arall. Tueddaf i fynd mhlau a mhlau wrth siarad a rhywun felly os eith hi'n dywyll cyn i chi gyrraedd adre 'rwy'n ymddiheuro. Cadwch yn iach a diogel bawb! Dave

Newyddion Scam

Hwn yw'r scam gwaethaf i mi glywed amdano adeg yr argyfwng yma. Os ydych yn ymwybodol ohono yna dwedwch wrth unrhyw un nad yw'n derbyn Llais y Llan. Erbyn hyn gwahoddyd nifer i dderbyn eu brechiad, ond mae 'na adroddiadau fod unigolion mileinig yn cysylltu â chynnig brathiad am arian. **Scam yw hyn felly peidiwch roi arian iddynt a gwedwch wrthynt ble i fynd!**

Yr unig ffordd i gael apwyntiad am frechiad yw drwy'r Gwasanaeth Iechyd. Byddant hwy yn cysylltu â chi pan ddaw eich tro i gael eich pigiad. Bydd hyn yn digwydd mewn canolfannau brechi, ysbytai neu Feddygfa. Pan ddaw'ch tro cewch lythyr, E-bost neu alwad ffôn o'r meddyg - mae'r gwasanaeth yn rhad ac ni ofynna neb am arian. Gallwch gadarnhau hyn oll drwy gysylltu â'r canlynol - www.nhs.uk <<http://www.nhs.uk>> Cadwch yn iach a diogel – Dave – Eich gwarchodwr.

Cwtsh Cymru (Gall cymunedau'n cydweithio fod o fydd)

Bydd y cynllun hwn yn cydweithio gyda dioddefwyr gwynegon, gofalwyr pobl a gwynegon, gweithwyr iechyd ac asiantau lleol. Byddwn yn cynnig cefnogaeth, gweithgareddau a gweithdai ac yn rhannu gwybodaeth. Byddwn yn cynghori sut i oddef poen, hunan reolaeth a chadw i symud. Daw hyn ynghyd a chyfleoedd i wirfoddoli er mwyn galluogi dioddefwyr gwynegon i wella a rheoli eu cyflwr gan gydweithio gyda gwirfoddolwyr , gofalwyr a gweithwyr iechyd, a hyn oll drwy weithredu'n lleol.

Yng Nghymru mae 29% yn dioddef o wynegon a bwriad CWTSH fydd ymateb yn gynnar er mwyn rheoli'r sefyllfa a rhoi hyder i bobl fyw gyda'r cyflwr heb deimlo'r ynysig ac mewn poen. Os hoffech fwy o wybodaeth neu'n barod i wirfoddoli neu am wybod mwy am y gwasanaeth cysylltwch â -

Ann Dymock. Cydlynnydd Gwasanaeth Sir Gar 01554 575170 neu 07999167085

a.dymock@versusarthritis.org

Clwb Cant Llanpumsaint

Mae'n bryd ail ymaelodi - £12 am 12 mis gan gychwyn yn Mis Mawrth. Gwnewch y siec i Clwb Cant Llanpumsaint. I'm cyrraedd erbyn 21ain o Fawrth. Neu gallwch roi'r arian drwy fy nrws. Defnyddir yr holl elw i gynnal a chadw'r cae Chwarae, ardal y plant ac adnewyddu cyfarpar. Rhedir y Clwb gan Gymdeithas Les Llanpumsaint a thynnir yr enillwyr gan yr Ymddiriedolwyr bob yn ail fis. Cofrestrir y Clwb gan Gyngor Sir Gar dan y Ddeddf Hapchwarae 2005.

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn ddiwethaf yn y gobaith y byddwch yn parhau.

Croesewir aelodau newydd - cysylltwch â mi am wybodaeth. Cadwch yn ddiogel -

Derick Lock Trysorydd Maesyfelin, Llanpumsaint sa336by 01267 353524

Doreen Ifans

Bydd nifer o'n darllenwyr yn cofio Doreen ifans fu'n byw yn Rose Ctage am flynyddoedd lawer – tipyn o gymeriad! Bu farw'n 93 ar Ddydd Calan. Mae yna ddigon o hanesion difyr amdani ond prin fu'r wybodaeth am ei bywyd cynnar, felly dyma grynodedeb o deyrnged ei nith iddi ar ddydd yr angladd – “ Ganed Doreen Gloria Ifans (Morgan) ar y 24ain o Orffennaf 1928 yn Llangynnwr. Hi oedd yr ifancaf o bum plentyn, tri ohonynt yn hanner perthyn. John Morgan oedd ei that yn briod a Gwenllian gyda thri phlentyn iddynt, David, Daniel a Peggy. Bu farw'r fam ar enedigaeth Peggy, felly ail briododd John a Hannah ac felly nhw oedd rhieni Ray a Doreen.

Er y cefndir trist codwyd Doreen ar aelwyd gynnes a hapus gyda'r plant i gyd yng nghyd fyw'n ddedwydd yn y Roundhouse yn Llangynnwr. Er mae ifanc oedd Doreen pan dorrodd yr Ail Ryfel Byd cafodd effaith arni wrth yw brodyr ymuno a'r Lluoedd Arfog. Un o'r Desert Rats oedd David dan reolaeth Montgomery yng ngogledd Affrica i ddychwelid, ond lladdwyd Danny oedd wedi ymuno a'r Llynges pan suddwyd y S S Empire Amethyst gan long danfor yr Almaen ger Haiti yn Ebrill 1942. Cadwodd Doreen hances sidan oedd ei brawd wedi anfon adre o Panama ychydig cyn ei ladd.

Gadael ysgol yn 16 i fynd yn lanhawraig gyda Deintydd. Yna cyfarfu a'i gwr Ieuan Ifans i briodi ar yr 20fed o Ragfyr 1952 gan symud i Lwynteg yn Pontantwn. Er na chawsant blant 'roedd Doreen yn hof iawn ohonynt. Yn berson caredig gan roi o'u hamser yn hael i'w nith a nai Bu farw Ieuan yn sydyn yn 1972 ond yn 55 oed, ond ni ail briododd Doreen, gan fyw yn y cartref nes iddi symud i Rose Cottage Llanpumsaint at ei chwaer Ray a Cliff. Pan fu farw Ray arhosodd Doreen i ofalu am Cliff. Wedi iddo yntau farw a'i hiechyd hithau bellach yn fregus symudodd Doreen i gartref Ael y Bryn ger Rhydaman. Mi welir ei heisiau “.

Bolio Dan Do Llanpumsaint a Nebo

Bu bron yn flwyddyn ers i ni chwarae a chyda'r hen fagiau casglu llwch annhebygol yw hi y byddwn wrthi eto cyn yr Haf. Fel paratoad i hynny dyma restr o eirfa'r sgips rhag ofn na wyddoch.

1 Pwysau da – ergyd gwael

2 Llinell dda – pwysau gwael

3 Bowl gefn da - lwcus na laniodd hi yn y ffos

4 Mha honna yn ei ffordd - mha honna yn fy ffordd i.

5 Galle honna fod o fantais lan manna na - mha honna'n agosach atat ti na'r Jac

6 Gwell lwc tro nesa - chefaist ti'm lwc tro na

7 Mae e'n syndod o dda – syndod fod e fyth yn llwyddo

8 Bowlia'i gyda fe unrhyw ddydd - mae e' wastad yn prynu'r rownd gyntaf

Cofiwch gadw llygad arien gwefan - Llanpumsaintsmbc.org.uk

Gwasanaeth Casglu Sbwriel Gerddi Cyngor Sir Gar

Gan ein bod bellach yn gorfod gwneud apwyntiad i fynd i Nant-y-caws, mae'n werth cofio i'r gwasanaeth uchod fod ar gael rhwng Mawrth a Thachwedd. Cost y gwasanaeth am y tymor yw £52.43, ond mae yna ostyngiad o %15 os talwch drwy garden, felly lawr i £45. Bydd y Cyngor yn dod a bin werdd symudol at y tŷ i gwsmeriaid newydd gan ei chasglu bob pythefnos. Bydd eich sbwriel wedyn yn cael eu hail gylchu fel compost. Daw cyngor hefyd am ba wastraff sy'n dderbyniol. Dylid rhoi'r Bin allan y noson cyn casglu. Daw mwy o wybodaeth o'r wefan -

www.carmarthenshire.gov.wales/home/cpuncilservices/recycling-bins-and-litter/gardenwaste

Ffôn 01267 234567

Vi Robinson

Y Gymdeithas Rhandiroedd

Bu'r diwrnodau tywyll gwlyb yn boen i ni gyd ar ben yr argyfwng presennol. Fel pob blwyddyn dyma'r amser 'rwy'n syllu'n obeithiol ar y golau'n cryfhau fesul pum munud bob dydd. Mae 'na arwyddion o dyfiant newydd yn y cloddiau gyda'r bylbiau'n egino (er i'r eira eu cuddio wrth ysgrifennu hyn). Felly dechreuaf feddwl am beth i dyfu yn y rhandir eleni. Felly wrth stablad obiti a meddwl am wanwyn mae'n help i chwythu'r cymylau bant.

Oherwydd y cyfyngiadau presennol penderfynwyd cynnal ein Cyfarfod Blynnyddol ar Zoom eleni. Bydd hyn ar Nos Iau'r 25ain o Chwefror 2021 am 7 o'r gloch. Felly a wneith pob aelod gysylltu â mi neu Ray drwy Ffon, E-bost neu Facebook. Bydd angen i ni wybod cyn y cyfarfod a ydych yn parhau fel aelod, ac mi fyddwn yn rhannu gwybodaeth llogi i mewn gyda'ch.

Os oes yna drigolion yn Llanpumsaint yn awyddus i ymuno a ni una cysylltwch. Gallwn eich ychwanegu ar y rhestr aros gan gysylltu cynted a daw lleoliad yn rhydd ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol. Y tal yw £35 y flwyddyn wrth ymuno ac yna £25 wedi hynny Disgwylir i'r taliadau gael eu gwneud erbyn 8 o'r gloch ar y Iaf o Fawrth

Efalle i chi weld ishe'r tynnu coes y tro hwn, y rheswm am hynny yw nad Keith fu'n ysgrifennu. Hoffwn ddiolch iddo am ei holl waith caled a'i ymroddiad i'r Gymdeithas Rhandiroedd. Rydym yn gweld ei ishe yn barod. Cyswllt -- Rosie 07950 411536 RosieFrewin@yahoo.co.uk Ray – 253157

Siop Gymunedol

Dal yn gryf yw'r ymroddiad am siop gymunedol yn y pentref. Yn Naturiol yn y sefyllfa bresennol gyda'r holl alwadau eraill ni fu'n bosib gwthio'r cwch i'r dwfn fel y bwriadwyd yr amser hwn llynedd. Ond fe ddaw yn y diwedd!

Sharon Frewin

Eglwysi Llanpumsaint, Llanllawddog, Sant Celynin Bronwydd a Sant Alban Cwmdud.

Cofiwch i gyfarwyddiadau Senedd Cymru a'r Eglwys fod yn newid yn gyflym felly dilynwch y diweddaraf ar Facebook, lle gallaf gadw lan a'r datblygiadau.

<https://facebook.com/llanpumsaintbronwyddandllanllawddogchurches>

Parhau gwna gwasanaethau Zoom o Foreol Weddi am naw bore Mercher a deg bore Sul.

Mae cylch Zoom Dot yn parhau o chwech i saith bob Nos Iau i blant rhwng 10 a 17.

Nos Fawrth 16eg Chwefror o 6 tan 7 Parti Pancws Zoom.

Cysylltwch â'r Parch Gaynor i gael dolen gyswllt

Dyma restr o Wasanaethau Cymun mewn eglwysi am 2 o'r gloch.

Cofiwch logi eich lle ymlaen llaw a gwisgo'ch gorchudd

Sul 7fed Chwefror / Sul 7fed Mawrth -- Sant Alban Cwmdud

Sul 14eg Chwefror / Sul 14 Mawrth -- Llanpumsaint

Sul 28ain Chwefror / Sul 21ain Mawrth -- Llanllawddog

Diolch i chi gyd am eich amynedd a'ch dealltwriaeth yn y cyfnod yma.

Parch Gaynor i gaynor@hotmail.com

Heddlu Dyfed Powys - Rhybydd Scam

Derbyniwyd gwybodaeth i rai pobl yn ein hardaloedd ddioddef wrth yr hyn a elwir yn Scam y Rhedwas

Bydd rhywun yn cysylltu yn honni mae Heddlu ydynt, ambell dro o Paddington. Y stori yw bod rhywbeth o'i le ar eich cyfri Banc neu'ch carden. Yna gofyn am fanylion ac efalla rhif eich Pin gan gynnig mynd a'r manylion i sortio pethau mas ac eich arbed rhag gorfod mynd i'r Orsaf Heddlu lleol.

Twyllwyr llwyr yw'r bobl hyn yn ceisio ennill eich ymddiried - felly i amddiffyn eich hunan cymerwch y camau isod.

Peidiwch siarad â nhw

Peidiwch roi eich cardiau i neb.

Rhowch y ffon lawr.

Brociwch eu rhif.

Peidiwch gysylltu ag unrhyw rif a roddwyd ganddynt. Os am siarad â'ch Banc defnyddiwch y rhif ar y garden.

Rhowch wybod i ni amdano – <http://orlo.uk/R9yhM>

Rhannwch y neges hon gyda'ch teulu a'ch cyfeillion ag eraill nad ydynt ar y We

Fe orchfygwn ni!

Mae'r firws yn beryglus ond fe wnawn ni lwyddo.

Peswch sych, annwyd, haint, calon yn raso, ofn yr anweledig.

Gydag arwyddion fel hyn ewch am brawf er mwyn osgoi'r gwaethaf.

Peidiwch gyffwrdd a'r llygaid trwyn na'r geg a golchwch eich dwylo.

Mae gwisgo gorchudd yn gymorth.

Os welwch rywun anhwylyd dwedwch. Wrthynt mae ysbyty amdani

I atal yr haint aros yn y tŷ yw'r peth gorau.

Drwy aros eich pellter byddwch yn fwy diogel

Mae cymorth ein perthnasau yn gymorth i oroesa.

Drwy gadw llygad ar bawb daw'r argyfwng i ben ynghynt.

Cylch Ieuencid Dot

Shwmae! Fy enw yw Jennie, 'rwy'n 11 oed ac am ddweud wrthynt am Dot, cylch crefyddol fi'n ymuno ag e' wythnosol ar Zoom. I gychwyn Cylch Ieuencid oedd e' ond fe newidiodd ni'r enw i Dot Disgyblion Heddiw (Disciples of Today).

Bûm yn mynychu gwasanaethau'r eglwys ers bo fi'n naw blwydd oed, ond ers y Cyfnod Cloi pump yn aelod o'r cylch ffurfiwyd gan Gaynor. Bob Nos Iau am 6 bydd wyth ohonom yn ymuno a Gaynor ar Zoom. Mae 'na un oedolyn hefyd bob tro, ambell Ficer neu rywun sy'n aelod o'r eglwys. Cawn dipyn o hwyl gyda Dot wrth i Gaynor restru beth sydd angen arnom bob tro, gan roi digon o rybudd ymlaen llaw. Pwrpas y defnydd fydd dysgu gwers grefyddol ac mi fydd yna drafodaeth wedyn a chyfle i fod yn greadigol. Mae gan Gaynor glust i wrando arnom a byddwn yn dysgu rhywbeth newydd bob wythnos a chael hwyl.

Dyma rai o'r pethau diddorol i ni wedi gwneud.

Creu ffurf aderyn allan o sbwriel. gan ddysgu am warchod adar.

Creu papi i Sul y Cofio

Mae gennym fascot sef Dotty y Ddafad sy'n ymuno bob tro.

'Rwy'n diddori'n fawr yn yr eglwys ac yn Weinydd Allor i Gaynor yn ystod y gwasanaeth. Ond nid oes raid gwybod dim am yr eglwys cyn ymuno a'r cylch a chewch groeso cynnes. Ar hyn o bryd rydym o 10 i 13 oed. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Gaynor, 'rwy'n siŵr fydddech yn mwynhau.

Benjamin Cross – Yn newydd i'r ardal

Symudais i Nebo gyda'm teulu yn 2018. Buom yn byw mewn tŷ trefol yn swydd Rhydychen am ddeg mlynedd cyn hynny. Felly bu symud mas i dyddyn yng nghefn gwlad Si Gar yn syfrdanol. Ond wedi gweud hynny fyddem ni ddim am droi 'nol. Ar wahân i'r llonyddwch, prydferthwch a hanes yr ardal bu'r croeso'r gymuned yn wresog a chyfeillgar. Gwnaethom ffrindiau newydd, mae'n bechgyn wedi toddi i mewn i'r ysgol leol ac rydym yn teimlo'n reit gartrefol. A bu yna bellach ychwanegiad i'r teulu sef ci bach o'r enw Ludo.

'Rwy'n Archeolegydd sydd hefyd yn ysgrifennu ffuglen ac mae'r gyfrol gynta ar fin ei chyhoedda. Gwireddu breuddwyd! Cychwynnais arni ryw ddegawd 'nol, yna miw'n i'r ail gan ddechrau ar drydydd, pob un wedi eu hysbrydoli gan fy ngyrfa yn archaeoleg. Mae'r stori'n dilyn Callum Ross Athro Archaeoleg ym Mhrifysgol Aberdeen, sy'n cynnal arolwg ar ynys unig yn yr Arctic, newydd ei chanfod. Daw o hyd i Fymi o ia a chorff cynoesol wedi ei gadw gan y rhew. Darganfyddiad arbennig ond un aflonydd. Pam? Oherwydd pwy bynnag yr oedd mi ddioddefodd farwolaeth arswydus a dirgel.

Mae Callum yn awyddus i ddatrys y dirgelwch, ond mae 'na eraill a bwriadau gwahanol a chaiff ei a'i griw eu caethiwo yno. Ac nid y nhw'n unig sydd yno, mae 'na rywbeth arall yn byw yn y lle unig hwn, mae 'na rywbeth arall yn byw yma ymhlith y fflochiau rhewllyd fil o filltiroedd y tu hwnt i unrhyw wareiddiad.

Mae'n stori sy'n symud yn gyflym gyda digon o bryder ac arswyd yn digwydd. A thu hwnt i'r ddihangfa, y wefr a'r troi a thrwstan mae 'na thema goruwch yn rhedeg drwy'r gyfrol. Y brif un yw'r newid hinsawdd. Yr unig reswm iddynt lwyddo cyrraedd yr ynys oedd i holl ia'r môr doddi'n gyflym. Er na fyddwn yn honni i'r gyfrol fod yn alegori, mae'n wir i bopeth sy'n digwydd ynddi (a phopeth sydd yn mynd o'i le) yn deillio o'r fynedfa newydd yma a phenderfyniad anystyriol rhai i ymelwa ar hynny.

Cyhoeddir COLONY mewn clawr papur ac fel llyfr E ar yr 28ain o Ionawr a gellir ei archebu'n flaen llaw o'r siopau - Waterstones, W H Smith a Llyfrau Goldstone yng Nghaerfyrddin. Ceir gwybodaeth bellach, adolygiadau, cyfweiliadau ar y wefan swyddogol - <https://www.benjamin-cross.com/>

Unwaith fydd y Cyfnod Cloi drosodd fy mwriad fydd gwneud darlleniad, cwestiwn ag ateb ac arwyddo rhywle'n lleol. Yn y cyfamser wy wastad yn barod am glonc os welwch chi fi'n cerdded Ludo. Gellwch fy holi am archaeoleg neu am y llyfr o'r pellter angenrheidiol wrth gwrs.

Christopher Morley (ne Benjamin Cross)

Y Tafarnau

Mewn cyfnod hesb pan ein bod oll y tu ôl i ddrws clo efallai iddi fod yn syniad i'n hatgoffa o'u cefndir. Yn bendant bu llawer mwy ohonynt yn y gorffennol na welwch ar agor y dyddiau hyn. Ganrifoedd yn ol 'roedd pawb wrthi'n yfed cwrw gan ei fod yn iachach na dŵr oedd yn cario heintiau'n aml. Felly bu cwrw i frecwast hyd yn oed yn ddigon cyffredin, ond dipyn yn wannach na beth gewn ni heddi. Felly wrth i gwsmeriaid dyrru at ryw grefftwr daeth yn eithaf naturiol i roi cwrw iddynt pan yn aros am y gwasanaeth.

Wrth ddisgwyl newid neu riparo olwyn eich cart yn naturiol ddigon o'dd peint bach yn dderbyniol iawn yn y Cwppers Llanpumsaint. Felly oedd hi hefyd yn y Carpenters Arms yn Bronwydd wrth aros i'r saer orffen y rhaw neu ryw gelficyn. Hen enw am Dafarn Nantcelynin oedd y Clothiers Arms, wnaeth gau ei ddrysau yn y 1850au a thebyg iawn i'r defnydd at wneud y dillad ddod o Felin-fach rhyw chwarter milltir lan yr hewl. Bu yna dri cwar prysur iawn yng nghwm Cynwil a daeth Y Roc & Fownten yn le poblogaidd iawn i leddfyr holl syched.

'Nol yn Llanpumsaint bu'n naturiol iawn i enwi'r tafarn newydd ger yr orsaf yn Railwe, ond er siom iddo gwrthododd y GWR ganiatâi y Gorsaf Feistr fynd tu ol i'r Bar. Felly adeiladodd dy arall drws nesa ac agor Swyddfa Bost. Lawr yn yr hen bentref aeth Tŷ Mawr y tafarn gwreiddiol yn siop London House ac yna erbyn hyn yn Ger y Llan. Nol yn 1840degau bu tafarnwr Tŷ Mawr yn rhedeg ysgol yng nghefn yr eglwys, cyn i'r ysgol bresennol gyrraedd. Ffaith arall ddiddorol fu i rai o'r Methodistiaid cynnar dan Hywel Harris addoli yn y dafarn hon - o'dd dim i weld o'i le ar hynny. Enwyd nifer o dafarnau ar ol yr Ystadau oedd yn berchen arnynt neu berchen y tir lle'i codwyd. Felly gwelwyd y Cwmgwili Arms ger Pentre Morgan, ar ol yr *ystâd leol, a'r Bronwydd Arms yn perthyn i'r Ystâd fawr honno ger Henllan* uwchben y Teifi. Felly mae lle i gredu i'r Clifford Arms ar waelod Rhiw Graig fod unwaith yn perthyn i'r Ystâd estron honno. Daw enghreifftia eraill i'n sylw fel Dinefwr Arms ac Emlyn Arms.

Efallai i rai ohonoch fwynhau pryd o fwyd yn Tŷ Bwyta'r Forge ar y ffordd i Sanclêr rywbyrd. Fel awgryma'r enw Gweithdy'r Gof fu yma'n wreiddiol, a phrofodd y te a'r brechdanau'n boblogaidd wrth i'r cwsmeriaid aros eich tro ger y gweithdy. Mor boblogaidd nes i rai droi lan jyst am y bwyd. Yn y diwedd wrth i'r oes newid taweli wnaeth y morthwyl a'r eingion tra ennill ei phlwyf wnaeth y stecen flasus.

Poblogaidd iawn yw'r Llew Coch, Llew Du a'r Llew Gwyn i gyd yn adlewyrchiad o arfbais teuluoedd bonedd neu frenhinoedd. Dynoda'r Gloch Las i'r lle fod gerllaw eglwys, felly na chi'r Blue Bell ym mhentref Cynwil.

Arwyn 2021



Llanpumsaint under a blanket of snow and a duvet of mist (Dave Robinson)

Village Voice February 2021

Copy Date for next Edition 26th March 2021

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice and our website www.llanpumsaint.org.uk. We also receive funding from Llanpumsaint Community Council and all our advertisers. We thank them all for the support.



One of the slips causing the road closure
Margaret Burgess




Ray of hope over Llanpumsaint Ray Davies



Flooding Ray Davies



Snow at the Allotment site Rosie Brewin



Just appeared one day, are they waiting for the next duck race? Angela and Phil



Litter pick by Edward and Sylvia



Beautiful bracket fungus Carolyn



Poster by Emma



PTA Virtual Santa Grotto



Another view of the snow

Local traders doing deliveries and/or order and collect

Lots of information about local shops and help in the village on the Facebook site, Llanpumsaint ar cylch. However, if you don't use Facebook, here are details of some traders that will be in the village, will deliver phone orders or operate a phone or click and collect service:

- Railway Inn** –Closed, but keep an eye on their Facebook, or phone 01267 253643
- Becky Veg and fruit** in the village from 2.00pm Thursday afternoons – 07969 047045
- Pasture Perfect Meat** Nicky Esgair 07866 311740
- Sausages and Bacon **Myrddin Heritage** 07468 453770
- **Baker Adrian Thomas** order Monday for delivery Wednesdays 07971 740505
- Gwalia Stores** Phone and collect 01267 890345
- Chris Thomas** at Abergwili Phone and Collect 01267 238363
- Castell Howell** on-line click and collect from Crosshands 01269 846080
- Castell Howell** Shop at Carmarthen Cash & Carry – see website for details
- Hafod Bakery** Order by Tues 1.00 for Delivery Thursday 01267 211419 info@hafodbakery
- Farmyard Nurseries** Delivering orders – 01559 363389
- Post Office Van Tuesday 13.30 – 15.00 and Friday 13.00 - 15.00**

And of course, if you can get a slot, Morrisons, Asda and Tesco will deliver – the difficult is finding a slot!!!!

Please contact Carolyn on if you want to be included here

From Carmarthenshire County Council

Carmarthenshire businesses and support groups are going the extra mile along with Covid-19 community support groups to help and support their local communities.

To see what is going on in our area and to find out what support is available log on to the [Carmarthenshire County Council website](#). If you want to add your business/group to this list email covid19community@carmarthenshire.gov.uk with the business/group name, brief description of what they are doing, how people can get in touch e.g facebook/web link, email and/or phone number and the area that you are working in. We can add new areas and types of service, if they aren't already listed in the drop-down menus. By working together we can help support our communities.

Are you 50+ Love books? Love reading? Love talking about it?

Come and join our friendly Befriending live links Book Club which runs online every other Friday at 11am.

Books we will be discussing over the next few weeks are:

February 19: The Familiars by Stacey Halls

March 5: The Poisonwood Bible by Barbara Kingsolver

For the zoom link and any other details contact sue.lewis@agecymrudfyfed.org.uk

Signs of Spring

After 2020, I think we are all looking forward to having a better 2021. Here we are waiting for our jobs, staying at home and keeping ourselves to ourselves. Missing our friends and family. January was very cold and wet at times, with some snow to add to the mix, but we have some signs of spring which lift the heart. Tiny cyclamen come with their white and pink flowers, snowdrops beginning to open, the first early daffodils with their sunshine yellow flowers, primroses spreading out with loads of buds ready to burst open when it gets a touch warmer.

As for the birds, we always get the gang of long-tailed tits feeding on the fat balls at the start of the year. The best sign of spring is the return of the Canada Geese – back in middle of January, just coming in for the day, returning to who knows where for the night. And of course, mole hills everywhere! Not sure that they lift the spirit. No doubt by the time the Voice is delivered, there will be many more signs for us all to enjoy. And lighter nights! Carolyn Smethurst

Llanpumsaint Heartbeat

The 4 defibrillators in the Llanpumsaint area are at the following locations:

Outside the Village Hall SA33 6BZ

Outside the Railway Inn SA33 6BU

On the wall outside Henfryn on way to Ffynnon Henry SA33 6LD

Outside the Vestry at Nebo SA33 6HN

Note: You do not need a code to access the defibrillator

If anyone has a cardiac arrest the sooner CPR is given and defib used, the more likely the patient will survive. Every minute is important, and the ambulance service will help you do this on the phone until the first responder arrives. This may be the local fire service who have been trained to do this. They will stay until the ambulance arrives.

If you are not sure about using a defibrillator, you can borrow a training pack from me to show you and the family how to give CPR and how to use the defibrillator. Although none of the village defibrillators have been used, you never know when you might need to help, so just going through the process with a training pack may help you and your family save a life. Carolyn Smethurst 01267253308,

info@gwilimill.com

This small committee needs additional help in providing this important service to the village. If you can help, please contact me at carolynsmethurst@btinternet.com, or phone 01267 253308 Many thanks.

LLANPUMSAINT WELFARE AND RECREATION ASSOCIATION

Llanpumsaint park remains open. However, everyone using the park is requested to read the Government Guidelines on the posters at each entrance. **NB. DOGS ARE NOT ALLOWED IN THE PARK**

Llanpumsaint School PTA - Easy Fundraising

If you are an Internet shopper, you could help raise funds for the PTA. All you have to do is register at, www.easyfundraising.org.uk/causes/LlanpumsaintPTA or contact Emma Brown for the link.

If anyone in the local community is able to claim £4£ match funding through work or other means and are willing to allow the PTA to claim this match funding, please let Becky James know on 01267 253560.

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD/CYLCH Y GOEDWIG

We are excited to continue to provide education and valuable experiences to children aged 2-4 years.

Contact Verona, Leader at 07929 431652 or cylchmeithrinbronwydd@gmail.com

Nebo Chapel Services

For more information please contact Chapel Secretary Meinir Jones on 253532

Ffynnonhenri Chapel

For further information please contact Danny Davies Treasurer on 01267 253418 or Gwyn Nicholas Secretary on 01267 253686

Caersalem - If you want to join us, please ring 253895 for more details.

Head to Toes Footcare Clients should contact Gary Robinson any weekday evening between 6 – 8pm on 07789344488, as should any existing client wishing to know when the next session will be held.

Neuadd Goffa Llanpumsaint & Ffynnonhenri Memorial Hall - Fundraising Bricks

Would you like to buy a brick to be displayed inside the Hall? We are now taking orders. We need five orders in order to make a purchase. The bricks are priced at £50 each. For more information or for an order form contact Catrin Eldred on 07772235243.

Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund

I'm Moisha Merry and I'm the Fund Manager for the Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund. I work for Antur Cymru who are the Fund Administrators. We are excited to have just launched our new website for the fund www.brechfawestcommunityfund.org.uk. Here you can find a full list of awards made so far; detailed case studies, information on how to apply to the fund or how you can nominate yourself to be considered as a new member of our grants panel; a list of frequently asked questions and much more. In the first 2 years of operation the fund has committed in excess of £1.4 million to 91 projects, that significantly benefit the communities living within 6km of the wind farm.

